



YSGOL HAFAN Y MÔR  
Heywood Lane,  
Dinbych y Pysgod / Tenby,  
SA70 8BZ  
☎ 01834-843248

✉ [admin.ysgolhafanymor@pembrokeshire.gov.uk](mailto:admin.ysgolhafanymor@pembrokeshire.gov.uk)

 Ysgol Hafan y Mor, Dinbych y Pysgod



[ysgolhafanymor.cymru](http://ysgolhafanymor.cymru)



@hafanymortenby

04.12.2020

Annwyl rieni a gofalwyr

### Seren yr Wythnos

Llongyfarchiadau i Ivy C, Mila, Theo, Albie, Bella C, Ruby F, Elsie J a Cerys am fod yn sêr yr wythnos hon - 04.12.20!

### SpellBlast & NumberBlast

Llongyfarchiadau i'r disgyblion canlynol:

<u>SpellBlast</u>	<u>J2NumberBlast</u>
	<u>Pencampwyr</u>
Bl. 2 - Mabli	Iwan B
Bl. 3 - Elsie	Noah H
Bl. 4 - Caitlyn , Lola D, Ffion	Aurea
Bl. 5 & 6 - Theo	Finley

### Cyhoeddiad ynghylch dyddiad diwedd tymor - 18.12.2020

Ddoe, cyhoeddodd Gyngor Sir Penfro y bydd ysgolion yn aros ar agor tan Rhagfyr 18fed yn ôl y bwriad gwreiddiol.

[https://www.pembrokeshire.gov.uk/newsroom/pembrokeshire-schools-to-continue-teaching-as-planned-until-end-of-term?utm\\_source=Facebook&utm\\_medium=social&utm\\_campaign=SocialSignIn](https://www.pembrokeshire.gov.uk/newsroom/pembrokeshire-schools-to-continue-teaching-as-planned-until-end-of-term?utm_source=Facebook&utm_medium=social&utm_campaign=SocialSignIn)

Yr wyf yn ymwybodol y gall rhai teuluoedd ddewis peidio ag anfon eu plant i'r ysgol yn ystod yr wythnos diwethaf i sicrhau bod teuluoedd yn hunanynysu cyn treulio amser gyda pherthnasau sy'n agored i niwed adeg y Nadolig. Os bydd unrhyw deuluoedd yn Ysgol Hafan y Môr yn dewis gwneud hyn, gofynnaf yn garedig i chi e-bostio'r ysgol (gan ddefnyddio'r ffurflen Gwyliau / Absenoldeb isod) er mwyn rhoi gwybod i mi am eich bwriad a'ch rhesymau dros wneud hynny. Diolch am eich cydweithrediad o flaen llaw.

Dolen gyswllt i'r ffurflen "Gwyliau / Cais am Absenoldeb":

[https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=Ug4\\_TzS3ZEGUCRtgHRR5k3nxpioDQn1lucxiu98NkxFUREswUDhZQVvk2WkdVS0o3QkZNRkRHRjVJQj4u](https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=Ug4_TzS3ZEGUCRtgHRR5k3nxpioDQn1lucxiu98NkxFUREswUDhZQVvk2WkdVS0o3QkZNRkRHRjVJQj4u)

### Ethol Rhiant-Lywodraethwyr Newydd

Nodyn cyflym i'ch atgoffa bod angen dychwelyd papur pleidleisio'r rhiant llywodraethwyr erbyn dydd Mawrth, Rhagfyr 8fed. Cesglir y rhain gan swyddogion CSP a'r swyddogion yma bydd yn gwneud y cyfrif ac yn dyfarnu. Mae'r ysgol yn recriwtio 3 rhiant-lywodraethwr newydd.

### **Croesi'r heol yn ddiogel**

Rwy'n ymwybodol nad yw rhai defnyddwyr ffyrdd yn glynu at reolau priffyrdd ynghylch croesfannau pelican, yn enwedig, y groesfan pelican ar y Green, ger yr orsaf betrol. Mae'n bwysig sicrhau bod y plant yn croesi pan fydd y dyn 'Coch' yn troi at ddyn 'Gwyrdd' ac i barhau i stopio, edrych a gwranddo wrth groesi'r ffordd. Dylai plant iau bob amser ddal llaw eu rhieni / gofalwyr wrth groesi. Nid yw gyrwyr bob amser yn stopio ac mae hyn wedi arwain at ychydig o achosion sy'n peri gofid. Byddaf yn rhoi gwybod i'r heddlu lleol am y digwyddiadau a gofynnaf yn garedig i chi wneud hynny hefyd os ydych yn ymwybodol o unrhyw rai.

Ymwelodd PC Helen Llewellyn â'r ysgol heddiw a chynnal gwasanaeth rhithiol gyda phob disgybl i egluro pwysigrwydd cadw ac aros yn ddiogel. Byddwn yn ddiolchgar pe baech hefyd yn trafod y neges adref.

Efallai y bydd y ddolen isod yn eich helpu i wneud hynny (*Saesneg yn unig*):

<https://www.youtube.com/watch?v=-HIOJqqL56U>

### **Stranger Danger**

Dyweddodd Gyngor Sir Penfro wrthym y bu digwyddiad yn ardal Aberdaugleddau yn gynharach yr wythnos hon, lle cysylltwyd â phlentyn ar y ffordd i'r ysgol yn ardal Aberdaugleddau gan ddyn mewn car. Gwnaeth y plentyn yr union beth cywir wrth ddilyn cyngor ar berygl dieithriaid a chyrhaeddodd yn ddiogel yn yr ysgol. Mae'r heddlu wedi cael gwybod a byddant hefyd yn rhoi post cyfryngau cymdeithasol allan.

Ymwelodd PC Helen Llewellyn â'r ysgol heddiw a chynnal gwasanaeth rhithiol gyda phob disgybl i egluro pwysigrwydd cadw ac aros yn ddiogel. Byddwn yn ddiolchgar pe baech hefyd yn trafod y neges adref.

Efallai y bydd y ddolen isod yn eich helpu i wneud hynny (*Saesneg yn unig*):

<https://www.youtube.com/watch?v=H95mOv2sIMY&t=4s>

Hoffwn atgoffa rhieni hefyd, mai'r sefyllfa bosibl hon yw un o'r rhesymau pam ei bod mor bwysig eich bod yn rhoi gwybod i ni os nad yw eich plentyn yn yr ysgol. Efallai y bydd achlysur lle rydych chi'n meddwl eu bod yn yr ysgol ac efallai y byddwn yn meddwl eu bod gartref ac er ein bod wedi ceisio cysylltu â'r cartref i gadarnhau, rydym heb gael ymateb ac mewn gwirionedd, gallai eich plentyn fod mewn perygl difrifol. Sicrhewch eich bod yn rhoi gwybod am unrhyw absenoldeb gan ddefnyddio'r system Absenoldeb ParentMail ar-lein.

### **Ffilmio'r Gyngerdd Nadolig**

Bydd ffilmio'r Gyngerdd Nadolig rhithiol yn cael ei gynnal yr wythnos nesaf. Bydd Meithrin, Derbyn, Bl. 1 a 2 yn ffilmio ddydd Mawrth a bydd Bl. 3, 4, 5 a 6 yn cael eu ffilmio ddydd Iau. Sicrhewch fod eich plentyn yn gwisgo ei ddillad penodedig i'r ysgol. Os oes rhaid i'ch plentyn wisgo siorts / crys-t, rydym yn hapus i blant wisgo 'onesie' i'w gadw'n gynnes drwy gydol y dydd.

*\*Sylwch, os nad ydym wedi llwyddo i ffilmio'r holl ddosbarthiadau ar y dyddiau penodedig, efallai y bydd yn rhaid i ni gael diwrnod ffilmio ychwanegol ddydd Gwener (Diwrnod Siwmpwr Nadolig!). Byddwn yn rhoi gwybod i rieni drwy ParentMail os yw hyn yn wir.*

Yn gywir

Mrs Griffiths  
Pennaeth

Wythnos yn cychwyn: 07.12.2020		Week commencing: 07.12.2020	
Bwletin Newyddion a Digwyddiadau		Events and News Bulletin	
Dyddiad	Digwyddiad	Date	Event
07.12.20 <u>Dydd Llundun</u>	<b>Gwersi Ymarfer corff i Bl.2, 3, 4, 5 a 6</b> <b>Rhaid</b> i <b>bob</b> plentyn ddod â chit ymarfer corff ac esgidiau priodol er mwyn cymryd rhan yng ngwersi addysg gorfforol.	07.12.2020 <u>Monday</u>	<b>PE lessons for all pupils in yrs.2, 3, 4, 5 &amp; 6</b> <b>All</b> pupils <b>must</b> bring PE kit and suitable footwear on the days that they have PE lessons.
08.12.20 <u>Dydd Mawrth</u>	<b>Recordio Cyngerdd Nadolig Rhithiol, Meithrin, Derbyn, Bl.1 a 2.</b> <i>*Sicrhewch fod eich plentyn yn dod i'r ysgol yn ei wisg os gwelwch yn dda.</i>	08.12.2020 <u>Tuesday</u>	<b>Recording of the Virtual Christmas Concert; Nursery, Reception, Yrs. 1 &amp; 2</b> <i>*Please ensure that your child comes to school dressed in their Christmas outfit.</i>
09.12.20 <u>Dydd Mercher</u>	<b>Cinio Nadolig</b> <i>*Nodwch os gwelwch yn dda, mae ebost wedi'i ddanfon at rieni Meithrin gyda'r trefniadau ar gyfer y diwrnod trwy ParentMail.</i>	09.12.20 <u>Wednesday</u>	<b>Christmas Lunch</b> <i>*Please note; an email has been sent to all Nursery children's parents via ParentMail outlining the arrangements for the day.</i>
09.12.20 <u>Dydd Mercher</u>	<b>Gwersi Ymarfer corff i Derbyn a Meithrin</b> <b>Rhaid</b> i <b>bob</b> plentyn (dosbarth Derbyn) ddod â chit ymarfer corff ac esgidiau priodol er mwyn cymryd rhan yng ngwersi addysg gorfforol.	09.12.20 <u>Wednesday</u>	<b>PE lessons for all pupils in Reception and Nursery</b> <b>All</b> pupils in Reception <b>must</b> bring PE kit and suitable footwear on the days that they have PE lessons.
10.12.20 <u>Dydd Iau</u>	<b>Recordio Cyngerdd Nadolig Rhithiol, Bl. 3, 4, 5 a 6</b> <i>*Sicrhewch fod eich plentyn yn dod i'r ysgol yn ei wisg os gwelwch yn dda.</i>	10.12.20 <u>Thursday</u>	<b>Recording of the Virtual Christmas Concert; Yrs. 3, 4, 5 &amp; 6</b> <i>*Please ensure that your child comes to school dressed in their Christmas outfit.</i>
10.12.20 <u>Dydd Iau</u>	<b>Gwersi Ymarfer corff i fl. 1</b> <b>Rhaid</b> i <b>bob</b> plentyn ddod â chit ymarfer corff ac esgidiau priodol er mwyn cymryd rhan yng ngwersi addysg gorfforol.	10.12.20 <u>Thursday</u>	<b>PE lessons for Year 1</b> <b>All</b> pupils <b>must</b> bring PE kit and suitable footwear on the days that they have PE lessons.
11.12.20 <u>Dydd Gwener/ Friday</u>	<b>DIWRNOD SIWMPER NADOLIG - CHRISTMAS JUMPER DAY</b> <b>PAWB</b> i wisgo siwmpwr Nadolig i'r ysgol. Gofynnwn yn garedig am gyfraniad o £1 neu'n fwy tuag at yr elusen 'Achub y Plant' trwy ParentMail 'Payments'. <b>EVERYONE</b> to wear a Christmas jumper to school. We kindly ask for a donation of £1 or more towards the charity: 'Save the Children' via ParentMail 'Payments'.		

**Recordio Cyngerdd Cerddorfa** - a allai pob rhiant sicrhau bod eu plentyn yn dod â'i offeryn i'r ysgol yr wythnos nesaf ac wedi bod yn ymarfer y darn gosodedig gan y byddant yn cael eu recordio ar y diwrnodau y daw eu hathrawon Peripatetig i'r ysgol. Wythnos yn cychwyn: 07.12.2020.

## Gwybodaeth - Information

### Gwybodaeth am ddyddiadau gwyliau a diwrnodau HMS (diwrnodau cau'r ysgol)

### Sylwch fod y rhain wedi'u diweddarau a'u bod ar galendr gwefan yr ysgol

<http://ysgolhafanymor.cymru/home/calendar/>

Gwyliau'r Nadolig	21.12.2020 - 01.01.2021
HMS (ysgol ar gau i blant)	04.01.2021
HMS (ysgol ar gau i blant)	26.01.2021
Hanner tymor	15 - 19.02.2021
Gwyliau'r Pasg	29.03 - 09.04.2021
HMS (ysgol ar gau i blant)	12.04.2021
HMS (ysgol ar gau i blant)	28.05.2021
Hanner tymor	31.05 - 04.06.2021
HMS (ysgol ar gau i blant)	19 & 20.07.2021

### Newidiadau i'r drefn boreol a chasglu yn y prynhawn

Hoffwn atgoffa'r **holl rieni a gofalwyr** hefyd fod yn rhaid iddynt gadw at y **system un ffordd**, dilyn y saethau gwyn a **pheidio â cherdded ar draws iard chwarae'r iard gefn**. Os yw rhieni/gofalwyr wedi casglu plant iau, cadwch nhw gyda chi wrth i chi aros yn y fan a'r lle i gasglu brawd neu chwaer hŷn. Gofynnaf yn garedig i rieni / gofalwyr gasglu eu plentyn/plant a gadael tir yr ysgol ar unwaith.

Yn dilyn y rheoliadau newydd gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Sir Penfro, **gofynnir yn garedig i bob rhiant / gofalwr wisgo gorchudd gwyneb wrth ddod â'u plentyn i'r ysgol a'u casglu**. Mae hyn er mwyn sicrhau diogelwch parhaus pawb ac mae'n ceisio lleihau'r broses o drosglwyddo'r feirws yn y gymuned.

### GWERSI ADDYSG GORFFOROL

Noder os gwelwch yn dda, rhaid i **bob** plentyn ddod â chit ymarfer corff ac esgidiau priodol er mwyn cymryd rhan yng ngwersi addysg gorfforol.

Dosbarth Mr Thomas (Cychod) Class (Bl. 5 a 6) -	Dydd Llun / Monday
Dosbarth Mr Hughes (Harbwr) Class (Bl. 3) -	Dydd Llun / Monday
Dosbarth Miss Jones (Castell Tywod) Class (Bl. 4) -	Dydd Llun / Monday
Dosbarth Mrs King (Ynys Bŷr) Class (Bl. 2) -	Dydd Llun / Monday
Dosbarth Mrs Phillips (Sêr y Môr) Class (Reception)-	Dydd Gwener / Friday
*Dosbarth Mrs Slack (Pysgod Chwim) Class (Nursery) -	Dydd Gwener / Friday
<i>*Nid oes angen iddynt fod yn cit ymarfer corff ffurfiol / These pupils do not need to wear formal PE kit</i>	
Dosbarth + Mrs Walters (Cregyn) Class (Bl.1) -	Dydd Iau / Thursday

## Poteli dwr a byrbrydau iachus

Hoffwn atgoffa rhieni / gofalmwr i sicrhau bod eu plentyn yn dod â photel ddŵr a byrbryd iach i'r ysgol bob dydd. Gwnewch yn siŵr mai dim ond dŵr sydd yn y botel gan fod gan rai plant yn yr ysgol alergedd i wahanol fathau o sgwash a gallai achosi adwaith alergaidd posibl i blentyn arall. A allai rhieni hefyd gofio bod gennym ychydig o blant ag alergeddau cnau ac felly mae'n bwysig osgoi anfon cnau/cynhyrchion cnau i'r ysgol.

## INCLEMENT WEATHER

I would like to remind all parents of the procedures for inclement weather and school closure. Updates relating to school closures or other alerts can be found on the following pages:-  
The Council's website at:- [www.pembrokeshire.gov.uk/alerts](http://www.pembrokeshire.gov.uk/alerts)

You can register for alerts by creating your own account by using the following web address: <https://myaccount.pembrokeshire.gov.uk/>

The Council's Twitter and Facebook pages will also be updated with alerts:-  
[www.facebook.com/PembrokeshireCountyCouncil](http://www.facebook.com/PembrokeshireCountyCouncil)  
[www.twitter.com/Pembrokeshire](http://www.twitter.com/Pembrokeshire)

## Gwyliau / Absenoldeb


Hoffwn atgoffa pob rhiant am y pwysigrwydd o adrodd absenoldeb eich plentyn. Os yw eich plentyn/plant yn absennol oherwydd salwch, **mae'n rhaid rhoi gwybod amdano drwy ddanfon nodyn Absenoldeb yn ParentMail cyn 9yb ar ddiwrnod yr absenoldeb**. Os ydych yn bwriadu cymryd gwyliau neu ofyn am absenoldeb oherwydd rheswm arall heblaw salwch, **rhaid i chi lenwi'r ffurflen electronig (dolen isod) o leiaf 10 diwrnod cyn yr absenoldeb arfaethedig**.

Os nad yw plentyn wedi'i gofnodi fel plentyn sy'n bresennol yn yr ysgol, erbyn 9.25am yna bydd eich plentyn yn cael ei nodi fel N - dim rheswm dros absenoldeb. Mae hyn yn unol â pholisi presenoldeb a gweithdrefnau diogelu'r ysgol. Mae'r Swyddogion Lles Addysg Cyngor Sir Penfro yn dechrau craffu ar gofrestrau 20 munud ar ôl cau'r gofrestr a bydd yn cysylltu â'r ysgol a Thîm Diogelu'r Awdurdod Lleol gan fod eich plenty wedi'i nodi fel, plentyn "coll" ac mae hyn yn cael eu hystyried yn fater diogelu.

Dolen gyswllt i'r ffurflen "Gwyliau / Cais am Absenoldeb":

[https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=Ug4\\_TzS3ZEGUCRtgHRR5k3nxpioDQn1lucxiu98NkxFUREswUDhZQVvK2WkdVS0o3QkZNRkRHRjVJQj4u](https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=Ug4_TzS3ZEGUCRtgHRR5k3nxpioDQn1lucxiu98NkxFUREswUDhZQVvK2WkdVS0o3QkZNRkRHRjVJQj4u)

Dyddiadau o flaen llaw		Future dates	
Bwletin Newyddion a Digwyddiadau		Events and News Bulletin	
Dyddiad	Digwyddiad	Date	Event
18.12.2020	<b>Diwrnod allan o wisg ysgol.</b> Gofynnwn yn garedig am gyfraniad o £1 y disgybl. Elw tuag yr elusen Follow your Dreams. Gofynnwn i gyfraniadau cael eu talu trwy ParentMail 'Payments'. Bydd eost yn dod cyn y digwyddiad gyda'r cais taliad.	18.12.2020	<b>Non-school uniform day.</b> We kindly ask for a contribution of £1 per pupil. All proceeds to be donated to the Follow your Dreams charity. Donations can be made via ParentMail 'Payments'. An email with the donation request will be sent closer to the event.

 Dyddiad newydd / New Date